

Gwybodaeth am y Rôl



Rhaid i Aelodau'r Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc fod rhwng 11 ac 18 oed a bod yn byw yng Nghymru.

Pryd a ble maen nhw'n cyfarfod?

Mae'r Panel yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn am ddiwrnod cyfan.

Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal **ddydd Mawrth 16 Gorffennaf 2019**. Bydd hwn yn gyfarfod Cenedlaethol, felly bydd yn cael ei gynnal yn y **Canolbarth** ar gyfer yr holl aelodau.

Bydd y 2 gyfarfod arall yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau yn y Gogledd neu'r De, p'un bynnag sydd agosaf adre, **ddydd Sadwrn 5 Hydref 2019** a **dydd Mawrth 18 Chwefror 2020**.

Hefyd bydd sesiwn hyfforddi ½ diwrnod neu gyda'r hwyr cyn dy gyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf, dyddiad i'w gadarnhau.

Bydd rhagor o gyfleoedd dewisol i fod yn rhan o waith y Tîm yn ystod dy 2 flynedd ar y panel.

Beth maen nhw'n ei wneud pan fyddan nhw'n cyfarfod?

- Rhoi cyngor a chymorth i Sally Holland, y Comisiynydd Plant, ynghylch sut mae ei sefydliad yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru ac yn eu cynrychioli.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a hyrwyddo gwaith Comisiynydd Plant Cymru.
- Gweithio gyda Sally a'i thîm i adolygu'r cynllun gwaith bob blwyddyn a rhoi syniadau newydd ac adborth iddi.
- Gweithio gyda Sally a'i thîm i adolygu a gwella gwaith y grŵp ymgynghorol, gan gynnwys recriwtio a chefnogi aelodau newydd a phresennol.

Mae angen bod ganddyn nhw:

- Sgiliau cyfathrebu da er mwyn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau a rhannu eu barn
- Sgiliau gweithio mewn tîm, gallu i weithio gyda phobl eraill i gyflawni nod a rennir
- Peth profiad blaenorol o gynrychioli eraill, e.e. cyngor ysgol, fforwm ieuenctid
- Profiad o rannu eu barn yn hyderus ag eraill
- Diddordeb mewn hawliau plant
- Gwybodaeth neu brofiad o'r amrywiaeth o faterion mae pobl ifanc yng Nghymru yn eu hwynebu

Maen nhw'n:

- Llawn symbyliad ac yn awyddus i gyfrannu syniadau newydd
- Trin eraill yn garedig ac yn barchus
- Ymrwymo i fynychu 3 chyfarfod y flwyddyn am 2 flynedd (oni bai bod amgylchiadau nad oes modd eu hosgoi yn eu hatal)